# Atodiad 2

## *Bwrdd Rhaglen – Cynllun Ymateb*

### *Adroddiad Cynnydd – 8 Rhagfyr 2025*

| **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**<br>***Swyddog Adrodd: Gwern ap Rhisiart*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri.<br>• Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel.<br>• Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr. |
| **2. Arweiniad a geisiir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>• A ddylem symud ymlaen ein hunain neu aros am ddeunydd LlC? (e.e. CPR-3) |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Grŵp tasg a gorffen wedi'i sefydlu ar draws yr Adrannau Addysg a Phlant i ddatblygu polisi drafft (Llais y Plentyn) gyda mewnbwn y fforwm ieuenctid.<br>• Mae'r Adran Addysg wedi ymgorffori gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming")yn y pecyn hyfforddiant diogelu ysgolion ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd (Medi 2025)<br>• Cyflogir Cydlynydd Fforwm Pobl Ifanc i helpu i ymgynghori â Fforwm Ieuenctid y Sir - gan roi cyfle i bobl ifanc leisio eu barn a chyfrannu at drafodaethau.<br>• Gweithio'n agos gyda RASAC Gogledd Cymru i sicrhau bod cynlluniau cymorth personol addas, wedi'u teilwra yn eu lle ar gyfer dioddefwyr<br>• Gwaith sgopio cychwynnol wedi'i wneud i ddeall gweithgarwch presennol ar draws y Cyngor mewn perthynas â llais, cyfranogiad a hawliau plant (bydd Cadeirydd y Bwrdd, Sally Holland, yn hwyluso gweithdy ar Hawliau Plant i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2026). |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • **Adnoddau:** Cais corfforaethol wedi'i baratoi i sicrhau staff ychwanegol i gefnogi gweithredu *CPR-6* (sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Plant bob amser yn siarad yn uniongyrchol â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi datgelu).<br>• **Aros am arweiniad pellach**: *CPR-3* Gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") yn y pecyn diogelu ysgolion – a ddylem symud ymlaen ein hunain neu aros am ddeunydd Llywodraeth Cymru? |
| **5. Camau nesaf / cerrig milltir allweddol:** | • Datblygu polisi ar wrando ar lais y plentyn – **erbyn Ebrill 2026**<br>• Gweithredu hyfforddiant i staff i adnabod a dogfennu newidiadau ymddygiadol mewn plant a allai fod yn |

| | |
|---|---|
| | arwydd o feithrin perthnasoedd amhriodol neu gam-drin **– erbyn mis Mawrth 2026.**<br>• Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cymorth i gyfateb ag anghenion yr unigolyn – **Parhaus**<br>• Cyflwyno system Bromcom newydd ar draws holl ysgolion Gwynedd, ochr yn ochr ag ymgyrch hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth – **erbyn Medi 2027**<br>• Adolygu'r adborth a gasglwyd gan Fforwm Ieuenctid y Sir a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw gamau gweithredu arfaethedig –**Ionawr 2026**<br>• Creu cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir ar gyfer ymgorffori diwylliant sy'n canolbwyntio ar blant ar draws pob gwasanaeth – **erbyn Ebrill 2026** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | • I'w gadarnhau – yn dibynnu ar adborth gan y Fforwm Ieuenctid |
| **7. Amserlenni:** | |

| | |
|---|---|
| CPR - 1 | Ebrill 2026 |
| CPR - 2 | Ebrill 2026 |
| CPR - 3 | Mawrth 2026 |
| CPR - 4 | Medi 2027 |
| CPR - 6 | I'w gadarnhau |
| CPR - 7 | Ionawr 2026 |
| CPR - 8 | I'w gadarnhau |
| CPR - 9<br>RP - A4<br>RP - A1 | Parhaus |
| RP- A5 | Parhaus |
| NEWYDD - 1 | Mawrth 2026 |

| **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**<br>***Swyddog Adrodd: Dylan Owen*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym.<br>• Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml-asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant. |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br><br>Canllawiau penodol:<br>*- CPR-15, RP-C2, RP-C2a – a yw'r Bwrdd yn fodlon â'r penderfyniad i aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru?* |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | Atgyfeiriadau Adran 5: |

| | |
|---|---|
| | • Mae pob plentyn sy'n rhan o'r atgyfeiriad (mewn rhai achosion lle mae'r plentyn wedi cyfeirio plentyn arall ac nad yw'r datgeliad yn ymwneud â nhw) yn cael ymweliad gan weithiwr cymdeithasol a fydd yn gwrando arnynt.<br>• Templedi trafodaeth a chyfarfodydd strategaeth diwygiedig fel bod gwybodaeth diogelu flaenorol ar gofnodion y plentyn yn cael ei dal a'i rhannu.<br>• Mae'r ffurflen atgyfeirio wedi'i hychwanegu at y wefan o dan Cam-drin Plant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, a Chadw Disgyblion yn Ddiogel. Mae e-bost hefyd wedi cael ei anfon at holl benaethiaid ysgolion Gwynedd gyda'r ffurflen ynghlwm fel nodyn atgoffa.<br>• Ar hyn o bryd mae atgyfeiriadau yn cael eu sgrinio gan yr IAA ac mae trafodaethau yn digwydd gyda naill ai'r LADO neu'r DOS ynghylch yr angen i gychwyn gweithdrefnau Rhan 5.<br><br><u>Polisi Pryderon Lefel Isel</u><br>• Mae ymarfer sgopio ar y Polisïau a ddefnyddir yn Lloegr wedi'i gwblhau.<br>• Ar 18.11.25, cyfarfu staff o Addysg, Diogelu (Plant ac Oedolion) ac Adnoddau Dynol i ystyried yr hyn y gallai Gwynedd ei weithredu wrth aros am eglurhad gan Lywodraeth Cymru.<br><br><u>Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion</u><br>• Mae'r tîm wedi hysbysebu am 4ydd aelod. 9 wedi gwneud cais, bydd penodiad cyn diwedd y tymor hwn.<br>• Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn cwrdd â Thimau rheoli gweithredol (Adran Plant) i sicrhau gwell dealltwriaeth o rolau. |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | CPR-12: <u>*Mae'n ofyniad bod trothwyon ar gyfer galw'r gweithdrefnau yn cael eu penderfynu mewn cyfarfod aml-asiantaeth ac nid gan y LADO yn unig, ac yn ystyried pryderon, cwynion a honiadau blaenorol.*</u><br><br>Gall cydlynu penderfyniadau trothwy aml-asiantaeth gymryd llawer o amser ac yn anodd eu hamserlennu, sy'n peryglu oedi camau diogelu brys. Bydd yr Adran Plant yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau partner i archwilio opsiynau fel cyfarfodydd rheolaidd. Disgwylir trafodaeth bellach ar y mater hwn a hyfywedd ar draws y rhanbarth yn NWSB mis Rhagfyr.<br><br><u>*CPR-15, RP-C2, RP-C2a - Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu Polisi Ymddygiad Oedolyn sy’n Peri Pryder' (a elwir yn Lloegr yn Bolisi Pryderon Lefel Isel') gan ystyried cynhyrchu canllawiau ar arferion gweithio diogel.*</u><br><br>Oherwydd pryderon am: |

| | |
|---|---|
| | 1. Gwerth cyfyngedig ymagwedd Gwynedd yn unig pan fydd staff yn gweithio'n aml ar draws rhanbarth Gogledd a Chanolbarth Cymru,<br>2. goblygiadau rheoli data, a<br>3. Materion adnoddau dynol a gwaith teg, gan gynnwys absenoldeb diffiniad statudol o "bryderon lefel isel",<br><br>Gwnaed y penderfyniad i ohirio gweithredu Polisi Pryderon Lefel Isel nes bod canllawiau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn ystyried adfer cofnod canolog o staff sy'n ymwneud â phrosesau diogelu Rhan 5, ond gyda meini prawf a diffiniadau cliriach. Mae'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos i adolygu eu hymagweddau a nodi elfennau y gellid eu mabwysiadu yng Ngwynedd. |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Y cynllun yw recriwtio Swyddog Dynodedig ychwanegol ar gyfer Diogelu (DOS) a fydd hefyd yn datblygu cynllun archwilio ar gyfer yr Adran. Bydd y cynllun archwilio yn cynnwys adolygu pwy sy'n mynychu trafodaethau strategaeth ac ansawdd cofnodion gwneud penderfyniadau.<br>• Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd (e.e., chwarterol) i gryfhau cydweithrediad rhwng yr Adrannau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd.<br>• Mae cyfarfod pellach wedi'i gynllunio gyda Gwasanaethau Oedolion i ystyried goblygiadau ehangach ar gyfer gwneud penderfyniadau trothwy Diogelu.<br>• Gweithio gyda'r adran TG i ddatblygu fersiwn ddigidol o'r ffurflen atgyfeirio fel nad oes angen i ddefnyddwyr lawrlwytho PDF a'i anfon trwy e-bost mwyach. Nodir bod y ffurflen yn ddogfen ranbarthol ac ar hyn o bryd mae cynlluniau i fabwysiadu un ffurflen atgyfeirio ledled y wlad. |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | **Adnoddau:**<br>• Cyflogi DOS ychwanegol a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran.<br>• Bydd yr Adran yn asesu a fydd angen adnoddau neu staff ychwanegol i gefnogi'r argymhelliad bod trafodaethau aml-asiantaeth yn cael eu cynnal i asesu trothwyon ar gyfer unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag unigolion mewn swyddi cyfrifol.<br>**Risg:**<br>• Sicrhau bod perchnogaeth systemau yn newid gan y gweithlu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7. Amserlenni:** | CPR -11 | I'w gadarnhau | |
| | CPR - 14 | I'w gadarnhau | |
| | RP- B5 | Parhaus | |
| | CPR - 15<br>RP- C2<br>RP - C2a | Hyd 25 – Ebrill 26 | |
| | CPR - 12 | I'w gadarnhau | |
| | CPR - 5 | Medi 25 | |
| | NEW- 2 | Parhaus | |
| | NEW- 3 | Parhaus | |
| | NEW- 4 | I'w gadarnhau | |
| | NEW- 5 | Parhaus | |
| | NEW- 6 | Parhaus | |
| | NEW- 7 | Parhaus | |
| | CPR - 10 | I'w gadarnhau | |
| | CPR 16 | I'w gadarnhau | |
| | RP- B2 | Parhaus | |
| | NEW- 8 | Parhaus | |
| | NEW- 9 | Parhaus | |
| | NEW- 10 | Parhaus | |

| **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau**<br>***Swyddog Adrodd: Ian Jones*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall "y gallai ddigwydd yma". |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>- CPR-18, 19 - A ddylem ychwanegu sleidiau ar fodel Finklehor mewn pecynnau hyfforddi neu aros am ddatblygu hyfforddiant cydnabyddedig? |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Mae'r Polisi Canu'r Gloch wedi'i ddiwygio a'i gylchredeg i'r Bwrdd am sylwadau (gweler *eitem 5 ar yr Agenda*).<br>• Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn yr Adran Addysg yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion ledled Gwynedd.<br>• Penodi rôl Hyrwyddwr Diogelu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth<br>• Mae dangosfwrdd perfformiad bob adran yn adrodd ar y canran o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu a VAWDASV gyda monitro rheolaidd yn ei le ynghylch y defnydd o hyfforddiant gorfodol.<br>• Mae pob ysgol wedi derbyn Ymweliad Monitro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae amserlen ymweld flynyddol yn ei lle ers mis Ionawr 2025 ymlaen (mae |

| | |
|---|---|
| | hyn yn mynd y tu hwnt i'r canllawiau cenedlaethol o ymweliad bob 2 flynedd). |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Dibyniaethau ynghylch darpariaeth hyfforddiant gan gyrff eraill, e.e.<br>o Dim darpariaeth hyfforddiant gydnabyddedig ar waith ar gyfer modus operandi troseddwyr rhyw a meithrin perthnasoedd amhriodol gan droseddwyr rhyw (model Finklehor)<br>o Aros am ymateb gan Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu sut y gellir addasu'r hyfforddiant a ddarperir yng Ngwynedd (hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol)<br>o Hyfforddiant a goruchwyliaeth rheolaidd LADO<br>• RP-B6 – *Ymchwiliad craffu ar drefniadau diogelu* - Disgwylir iddo adrodd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2025 ond mae hyn wedi llithro i 12 Chwefror 2026 oherwydd y broses o gaffael a phenodi darparwr allanol i ymgymryd ag ymchwil ar lais y plentyn. |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Mabwysiadu polisi canu'r gloch diwygiedig – Cabinet (**Ionawr 26**), Cyngor Llawn (**Mawrth 26**) a gweithredu'r polisi (**Ebrill 26**)<br>• Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion timau rheng flaen – **Tachwedd 2025.**<br>• Is-grŵp i ddatblygu a chynhyrchu offer ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor - **I'w gadarnhau**<br>• Ychwanegu hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol i'r e-fodiwl presennol gyda chytundeb SCW - **Tachwedd 2025.**<br>• Adroddiad Ymchwiliad Craffu (Trefniadau Diogelu) **- Chwefror 2026**<br>• Adolygiad pellach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol – **Ebrill 2026** |
| **6. Risgiau / Adnoddau:** | • **Adnoddau:** CPR –24 - Gyda bron i 100 o Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion (heb gynnwys dirprwy DSP), bydd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol.<br>• **Adnoddau:** RP-B2 - Gwaith i'w wneud ar gyfrifon e-bost ar gyfer staff (yn enwedig rheng flaen) i'w galluogi i gwblhau hyfforddiant gorfodol. Cyflwynwyd cais am gyllid sylweddol er mwyn gwella hyn. |
| **7. Amserlenni:** | CPR - 17: I'w gadarnhau gan LlC<br>CPR - 18: i'w gadarnhau<br>CPR - 19: I'w gadarnhau (gweler CPR-18)<br>CPR - 20: Ebrill 2026<br>CPR -13: i'w gadarnhau |

| | |
|---|---|
| CPR - 24 | i'w gadarnhau |
| RP- C2 | Rhagfyr 2025 |
| RP- B1b | Parhaus |
| RP- B2 | Cwblhau |
| RP- C2d | Parhaus |
| NEW- 11 | i'w gadarnhau |
| RP- B1 | Ebrill 2026 |
| RP- B2 | i'w gadarnhau |
| RP- B1a | Mehefin 2026 |
| RP- B1c | Cwblhau |
| RP- B5 | Cwblhau |
| RP- B6 | Rhagfyr 2025 |

| **Thema 4 - Llywodraethu**<br>***Swyddog Adrodd: I'w gadarnhau*** | |
|---|---|
| **1. Nod Thema:** | • Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau neu gadw plant yn ddiogel<br>• Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur iechyd a diwylliant ehangach ysgolion |
| **2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.<br>Canllawiau penodol:<br>- Mae amserlenni yn risg ar hyn o bryd – rhagwelir y bydd adolygiad Llywodraeth Cymru yn cymryd rhwng 6 a 9 mis. A allwn ni symud ymlaen yn gynt gyda rhai o'r argymhellion? Sut? |
| **3. Cynnydd hyd yma:** | • Hyfforddiant diogelu gorfodol yn ei le ar gyfer pob Cadeirydd a Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion.<br>• Ei gwneud hi'n orfodol i Lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant diogelu sylfaenol<br>• Llawlyfr llywodraethwr newydd wedi'i rannu gyda'r holl lywodraethwyr<br>• Dechrau coladu gwybodaeth i asesu sefyllfa'r ysgol gan gynnwys iechyd a diwylliant ehangach |
| **4. Heriau a wynebwyd:** | • Dibyniaethau - yn aros am arweiniad pellach gan LlC yn dilyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion |
| **5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Adran Addysg i ddatblygu a chylchredeg agenda / rhaglen sefydlog ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar faterion diogelu a lles, ynghyd â darparu'r data priodol i'w helpu i asesu sefyllfa'r ysgolion<br>• Ymateb i argymhellion gan adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | **Risgiau / Adnoddau:** | • **Adnoddau:** RP-Ch7 - Bydd angen swyddog ychwanegol arnom i gefnogi 94 o gyrff llywodraethu. Ar hyn o bryd mae gennym un swyddog. Rydym wedi derbyn grant gan LlC a fydd yn caniatáu i ni benodi swyddog ychwanegol.<br>• **Adnoddau:** CPR-22 - Bydd angen adnoddau arnom i greu dangosfwrdd a fyddai'n hwyluso casglu data o'r fath. |
| 7. | **Amserlenni:** | CPR - 21: i'w gadarnhau<br>CPR - 22: i'w gadarnhau<br>CPR - 23: i'w gadarnhau<br>RP- C3: i'w gadarnhau<br>RP- Ch7: i'w gadarnhau<br>RP- Ch6: Mehefin 2026<br>NEW- 12: i'w gadarnhau |

| **Thema 5 – Arferion Cyfyngol**<br>***Swyddog Adrodd: I'w gadarnhau*** | | |
|---|---|---|
| 1. | **Nod Thema:** | • Diweddaru canllawiau am ffilmio atal yn gorfforol gan oedolion, a sut y dylid cadw cofnodion ffilmio. |
| 2. | **Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:** | Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf. |
| 3. | **Cynnydd hyd yma:** | • Gweithredodd y troseddwr yn groes i'r Polisi Ysgolion trwy ffilmio achosion - nid yw hyn yn arfer safonol.<br>• Yn ystod ymweliadau Sicrwydd Ansawdd rydym bob amser yn edrych ar y polisi arfer cyfyngol i sicrhau bod hynny'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarperir. Darperir hyfforddiant am ddim trwy'r tîm cynhwysiant. |
| 4. | **Heriau a wynebwyd:** | • Angen cynnal trafodaeth fewnol ar y defnydd o rym rhesymol, yn enwedig gan fod dau fath o hyfforddiant ar gael ar hyn o bryd sy'n addysgu technegau gwahanol. Mae gan yr Adran Addysg arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi ym maes DPP ac felly byddai cysoni'r dulliau hyfforddi yn fan cychwyn da i sicrhau dull clir, cyson a diogel ar draws y gwasanaethau. |
| 5. | **Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:** | • Adolygu polisi'r Cyngor ar Arferion Cyfyngol a sicrhau bod pob ysgol yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol |
| 6. | **Risgiau / Adnoddau:** | • i'w gadarnhau |
| 7. | **Amserlenni:** | • i'w gadarnhau |

| **Thema 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng**<br>***Swyddog Adrodd: Catrin Love*** | | |
|---|---|---|
| 1. | **Nod Thema:** | • Sicrhau bod cynllun clir, strategol a chydgysylltiedig ar waith mewn achos o argyfwng |

<table>
<tr><td>2. Arweiniad a geisir gan y Bwrdd:</td><td>Gofynnwn i'r Bwrdd;<br>- Herio a chraffu ar gynnydd<br>- Cynnig unrhyw arweiniad pellach ar y camau nesaf.</td></tr>
<tr><td>3. Cynnydd hyd yma:</td><td><ul><li>Grŵp tasg mewnol wedi'i sefydlu i adolygu'r cynlluniau cyfredol sydd ar waith ar lefel strategol a gweithredol i ymateb i ddigwyddiadau critigol. Bydd y gwaith yn tynnu ar arfer da yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.</li><li>Canllawiau ar waith ar gyfer y Corff Llywodraethu (Polisi Diogelu) ers 2019. Bydd yr adran addysg yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o hyn.</li></ul></td></tr>
<tr><td>4. Heriau a wynebwyd:</td><td><ul><li>i'w gadarnhau</li></ul></td></tr>
<tr><td>5. Y camau nesaf/cerrig milltir allweddol:</td><td><ul><li>Cynllun drafft yn ei le erbyn Rhagfyr 2026</li><li>Unwaith y bydd y cynllun wedi'i gytuno, bydd angen rhaglen gweithredu a hyfforddiant (Ebrill 2026)</li></ul></td></tr>
<tr><td>6. Risgiau / Adnoddau:</td><td><ul><li>i'w gadarnhau</li></ul></td></tr>
<tr><td>7. Amserlenni:</td><td><table>
<tr><td>CPR - 26a</td><td>Cynllun drafft erbyn 31/12/25</td></tr>
<tr><td>CPR - 26b</td><td>i'w gadarnhau</td></tr>
<tr><td>CPR - 26c</td><td>i'w gadarnhau</td></tr>
<tr><td>CPR - 26d</td><td>Ebrill 2026</td></tr>
<tr><td>PR- C2e</td><td>Cwblhau</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

# Atodiad 3

## Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr

| Rhif | Cyfeirnod | Cyf Tasg | Thema | Argymhelliad / Amcan | Gweithred | A all CG weithredu: | Perthnasol i: | Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd | Amserlen | RAG | Tasg / Yn Parhau | Tasg wedi'i Chwblhau | Mesur | Adnoddau | Beth sydd eisoes wedi newid? | Beth sydd dal angen ei wneud? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | CPR - 1 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Rhaid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant sicrhau bod eu polisïau mewn perthynas â gwrando ar lais y plentyn yn cael eu hadolygu, eu gweithredu'n llawn ac yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r Adolygiad hwn | Bydd y Cyngor yn datblygu polisi ar wrando ar lais y plentyn a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol. | Ie | Pob sefydliad | Dylan Owen | Erbyn Ebrill 2026 | | Tasg | | Oes | Oes | Mewn perthynas i ddiogelu, rydym yn cydnabod nad oes un ddogfen polisi ar hyn o bryd sy'n cofnodi arferion a mesurau presennol. Mae un cyfarfod wedi'i gynnal gyda Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Cydlynydd Ymgysylltu Addysg. Bydd cyfarfod cychwynnol o'r Grŵp Tasg a Gorffen i drafod y polisi yn digwydd (8 Rhagfyr 2025) | Bydd cam nesaf y gwaith yn cynnwys y Grŵp Tasg a Gorffen yn ymgymryd ag archwiliad o arferion cyfredol i sefydlu gwaelodlin glir.<br><br>Bydd y Grŵp yn cytuno ar ei Gylch Gorchwyl ac yn dechrau datblygu polisi drafft "Llais y Plentyn". Gofynnir am fewnbwn gan y Fforwm Ieuenctid i sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn natblygiad y polisi.<br><br>Yna bydd y polisi drafft a'r mesurau cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Ymateb, am ymgynghoriad ac adborth. Yn dilyn hyn, bydd y drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth i'w ystyried ac yna i'r Cabinet am gymeradwyaeth derfynol.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn cadw'r ymagwedd ranbarthol sy'n dod i'r amlwg mewn golwg. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi nodi ei fwriad i gydweithio â Swyddog Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru i adnabod a datblygu arfer dda wrth ymgysylltu â phlant ar faterion diogelu. |
| | | 1.1 | " | " | Sefydlu grŵp tasg a gorffen ar draws yr Adrannau Addysg a Phlant | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Tachwedd 2025 | | Tasg | do | | | Mae swyddogion perthnasol ar draws yr adrannau wedi'u hadnabod a bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 8 Rhagfyr a bydd yn canolbwyntio i ddechrau ar lunio Cylch Gorchwyl. | |
| | | 1.2 | " | " | Cynnal ymarferiad sgopio i archwilio'r arferion a'r ymagweddau a ddefnyddir gan gynghorau eraill. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Rhagfyr 2025 | | Tasg | na | | | | |
| | | 1.3 | " | " | Grŵp Tasg i ymgymryd ag archwiliad o arferion cyfredol yr Adrannau Addysg a Phlant - gan gynnwys prosesau statudol | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter / Gwern ap Rhisiart | Rhagfyr 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 1.4 | " | " | Drafft o'r polisi ysgrifenedig | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Chwefror 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 1.5 | " | " | Cyflwyno'r polisi drafft a'r mesurau i randdeiliaid perthnasol, e.e. Bwrdd Ymateb | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Chwefror 2026 | | Tasg | | | | | |
| | | 1.6 | " | " | Cyflwyno'r polisi drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Mawrth 2026 | | Tasg | | | | | |
| | | 1.7 | " | " | Cyflwyno'r polisi drafft i'r Cabinet am gymeradwyaeth derfynol | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Ebrill 2026 | | Tasg | | | | | |
| | | 1.8 | " | " | Tra bod y Polisi'n cael ei ddatblygu, gellid ymgorffori unrhyw arfer dda sydd wedi'i hadnabod ar lefel ranbarthol. | Ie | Cyngor Gwynedd / Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Dylan Owen / Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | | | | |
| | | 1.9 | " | " | Monitro ac adolygu'r polisi bob dwy flynedd | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Ebrill 2028 | | Yn parhau | | | | | |
| 2 | CPR - 2 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Rhaid i sefydliadau allu dangos tystiolaeth i'w Bwrdd a'u Rheoleiddwyr proffesiynol bod ganddynt broses ar gyfer gwrando ar blant a'i bod wedi'i gwreiddio ac yn weithredol yn y sefydliad | Bydd angen i Gyngor Gwynedd sefydlu a thystiolaethu systemau ar gyfer gwrando ar blant, gyda mesurau clir yn eu lle ac adrodd rheolaidd i'r byrddau a'r rheoleiddwyr proffesiynol perthnasol. | Ie | Pob sefydliad / Rheoleiddwyr | Dylan Owen | Erbyn Ebrill 2026 | | Yn parhau | | OES | Oes | Caiff y mesurau eu datblygu ar y cyd â'r "Polisi Llais y Plentyn"<br><br>Gweler Cyf: CPR-1 ar Ddatblygu Polisïau | Caiff y mesurau eu datblygu ar y cyd â'r "Polisi Llais y Plentyn"<br><br>Gweler Cyf: CPR-1 ar Ddatblygu Polisïau |
| | | 2.1 | " | " | Datblygu mesurau i sicrhau gweithredu trefniadau gwrando ar Lais y Plentyn yn effeithiol ac yn gyson ar draws y Cyngor. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Polisi (gweler cyf: CPR-1) | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Ebrill 2026 | | Tasg | | DO[illegible] | | | |
| | | 2.2 | " | " | Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi datgan ei fwriad i olrhain a dysgu o Arolygon Rheoleiddiol, a sicrhau bod holl bartneriaid statudol y bwrdd yn cyflwyno canfyddiadau o arolygon gan gynnwys adborth ar lais y plentyn. | Ie | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol / Pob Awdurdod Lleol | Dylan Owen | Yn parhau | | Yn parhau | | DO[illegible] | | | |
| 3 | CPR - 3 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Rhaid i bob asiantaeth sicrhau bod eu staff yn cael eu hyfforddi i ganfod a chofnodi newid mewn ymddygiad plentyn a allai nodi bod oedolion yn meithrin perthynas amhriodol gyda nhw ac/neu eu bod yn cael eu cam-drin | Gweithredu hyfforddiant i staff i adnabod a dogfennu newidiadau ymddygiadol mewn plant a allai fod yn arwydd o feithrin perthynas amhriodol neu gamdriniaeth. | Ie | Pob sefydliad | Dylan Owen | Erbyn Mawrth 2026 | | Yn parhau | | OES | Oes - unrhyw gostau pecynnau hyfforddi allanol | Mae'r Adran Addysg wedi ymgorffori gwybodaeth am "feithrin perthynas amhriodol" yn y pecyn hyfforddi ar ddiogelu i ysgolion ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd (Medi 2025).<br><br>Mae'r Adran Plant hefyd wedi adolygu'r hyfforddiant a gaiff ei ddarparu i'w gweithlu ar hyn o bryd. Tra bod elfennau sy'n ymwneud â meithrin perthynas amhriodol wedi'u cynnwys o fewn nifer o fodiwlau presennol, er enghraifft, CSE, CCE ac Ymarfer sy'n Ymwybodol o Drawma, nid oedd hyfforddiant pwrpasol yn canolbwyntio'n benodol ar feithrin perthnasoedd amhriodol. Felly, mae'r Adran wedi ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o opsiynau hyfforddi posib (gan gynnwys cyrsiau gan yr NSPCC a'r Lucy Faithfull Foundation) sy'n canolbwyntio'n benodol ar feithrin perthnasoedd amhriodol, adnabod arwyddion o feithrin perthnasoedd amhriodol mewn plant, a deall y dulliau a ddefnyddir gan droseddwyr rhyw. | Pennu a chyflwyno pecyn hyfforddi priodol ar gyfer gweithlu'r Adran Plant yn ystod 2026/27, yn ogystal â gweithio gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu hyfforddiant rhanbarthol cysylltiedig. |
| | | 3.1 | " | " | Adolygu'r hyfforddiant sydd eisoes yn ei le o fewn yr Adran Plant | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Medi 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 3.2 | " | " | Cynnwys gwybodaeth am "feithrin perthnasoedd amhriodol" ym mhecynnau diogelu ysgolion | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Medi 2025 | | Tasg | do | | Os oes gofyn i ni symud yn gyflymach na Llywodraeth Cymru yn nhermau deunyddiau hyfforddi bydd angen i ni gomisiynu hyn. | Mae sleidiau wedi'u cynnwys yn y deunyddiau hyfforddi a rannwyd gydag ysgolion ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Roeddent yn seiliedig ar ddeunyddiau y rhoddwyd i ni gan yr NSPCC. | Mae angen rhagor o fanylion yn y deunyddiau, gallai hyn ddod gyda'r deunyddiau gan LlC. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3.3 | " | " | Ymchwilio i'r ystod o hyfforddiant ac adnoddau a gynigir gan ddarparwyr allanol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Hydref 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 3.4 | " | " | Penderfynu ar becyn hyfforddiant ar gyfer 2026/27 | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Rhagfyr 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 3.5 | " | " | Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei fwriad i ddatblygu rhaglen hyfforddi ranbarthol ar gyfer gweithlu diogelu ar draws Gwasanaethau Plant ac Addysg, sy'n gam buddiol a groesewir. | Ddim yn uniongyrchol. | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Dylan Owen (fel y cynrychiolydd ar y Bwrdd Diogelu) | Rhagfyr 2025 (dyddiad wedi'i nodi gan y Bwrdd Diogelu) | | Yn parhau | | | | | |
| | | 3.6 | | | Gweithredu pecyn hyfforddi, p'un a gaiff ei gyflwyno'r rhanbarthol neu ei gomisiynu gan Wynedd yn y cyfamser. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Erbyn Mawrth 2026 | | Yn parhau | | DO | | | |
| 4 | CPR - 4 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Mewn ysgolion, rhaid i'r newidiadau hyn gael eu cofnodi ar system reoli data electronig | Cofnodi unrhyw newidiadau ymddygiadau a allai fod yn arwydd o feithrin perthynas amhriodol ar system reoli data electronig | Ie | Ysgolion | Gwern ap Rhisiart | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | Mae'r system wedi'i brynu o gyllideb oedd gennym yn barod. | | Prynu'r system Bromcom newydd a'i chyflwyno ar draws holl ysgolion Gwynedd, ar y cyd â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am y broses sydd wedi'i diweddaru ar gyfer cofnodi ymddygiadau a digwyddiadau (heb fod wedi'u cyfyngu i bryderon am feithrin perthnasoedd amhriodol yn unig) |
| | | 4.1 | " | " | Prynu system newydd (Bromcom) i ddisodli "My Concern" | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Ionawr 2026 | | Tasg | | | Mae'r system wedi'i brynu o gyllideb oedd gennym yn barod. | Rydym wedi prynu'r system newydd | Mae angen i ni symud o un system i'r llall a bydd hyn yn cymryd amser. |
| | | 4.2 | " | " | Cyflwyno Bromcom i bob Ysgol yng Ngwynedd | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Medi 2027 | | Tasg | | | | Bydd y system wedi'i chyflwyno'n llawn erbyn Medi 2027. | |
| | | 4.3 | " | " | Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am y ffordd newydd o gofnodi unrhyw ymddygiadau/digwyddiadau ar y system. | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | I'w gadarnhau | | Tasg | | | Yn dibynnu ar amserlenni, efallai y bydd angen i ni brynu capasiti hyfforddiant ychwanegol. | Mae hyfforddiant yn rhan o gyflwyno'r system. Ni all yr un ysgol ddechrau gyda Bromcom heb hyfforddiant sylfaenol. Bydd Hyfforddiant ar gyfer yr elfen diogelu yn cael ei chyflwyno wrth i ni ddod â defnydd o My Concern i ben. | Darparu cynllun hyfforddi wrth i'r system gael ei chyflwyno. Mae'r Tîm Diogelu wedi bod ynghlwm â phrynu Bromcom ac mae wedi bod yn rhan o drafod y gofynion hyfforddi. |
| | | 4.4 | " | " | Adolygu effeithiolrwydd y system | Ie | Cyngor Gwynedd / Rheoleiddwyr | Gwern Ap Rhisiart | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | DO | | | |
| 5 | CPR - 6 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud gan drydydd parti dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid i swyddog o'r gwasanaeth gofal cymdeithasol plant siarad â'r plentyn sy'n cael ei enwi yn yr atgyfeiriad, hyd yn oed pan nad yw wedi datgelu unrhyw beth ei | Sicrhau, pan fod atgyfeiriad Adran 5 trydydd parti yn cael ei dderbyn, bod y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Plant yn siarad yn uniongyrchol â'r plentyn, hyd yn oed pan nad yw'r plentyn wedi gwneud datgeliad ei hun | Ie | Pob Awdurdod Lleol | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Tasg | do | OES | Oes - Mae bid corfforaethol wedi'i baratoi i sicrhau staff ychwanegol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r gofyn hwn. | Mae'r Adran Plant bellach yn sicrhau bod pob un plentyn sydd ynghlwm ag atgyfeiriad (mewn rhai achosion lle mae'r plentyn wedi atgyfeirio plentyn arall ac nid yw'r datgeliad amdanyn nhw) yn cael gweithiwr cymdeithasol yn ymweld ac yn gwrando arnyn nhw. | Rhagwelir trafodaeth ym Mwrdd Diogelu Gogledd Cymru ynghylch yr ymagwedd tuag at yr argymhelliad hwn ar draws y rhanbarth. |
| | | 5.1 | " | " | | Ie | Cyngor Gwynedd | | | | | do | | | | |
| 6 | CPR - 7 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Dylai ALl1 ymgynghori gyda disgyblion i ganfod y ffordd orau o'u galluogi i gael gafael ar unigolyn neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Dylid arddangos manylion cyswllt yn amlwg ym mhob ysgol | Dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori gyda disgyblion i ganfod y ffordd orau o'u galluogi i gael gafael ar unigolyn neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Yna dylid arddangos manylion cyswllt yn amlwg ym mhob ysgol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern ap Rhisiart | I'w gadarnhau | | Tasg | | | Posibl - yn dibynnu ar adborth y Fforwm Ieuenctid | Mae'r Cyngor wedi dechrau'r broses ymgynghori drwy Fforwm Ieuenctid y Sir, gan roi cyfle i bobl ifanc leisio'u barn a chyfrannu at y trafodaethau.<br><br>Yn y cyfamser, mae neges atgoffa wedi'i hanfon at bob Pennaeth, yn atgoffa ysgolion am yr angen i arddangos posteri gyda manylion cyswllt yr NSPCC mewn mannau amlwg ar draws yr ysgol. | Adolygu'r adborth sydd wedi'i gasglu gan Fforwm Ieuenctid y Sir, adnabod themâu allweddol ac argymhellion gan bobl ifanc, ac - yn seiliedig ar y dystiolaeth hon - ceisio cymeradwyaeth am unrhyw gamau arfaethedig neu ddyrannu adnoddau. |
| | | 6.1 | " | " | Atgoffa pob Pennaeth am yr angen i arddangos posteri gyda manylion cyswllt yr NSPCC mewn mannau amlwg ar draws yr ysgol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Medi 2025 | | Tasg | | | Na | Mae negeseuon atgoffa wedi'u hanfon yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae'r ymweliad Sicrwydd Ansawdd wedi nodi diffyg deunyddiau priodol mewn mannau amlwg ar draws yr ysgolion. | Byddwn yn parhau i atgoffa bob ysgol yn rheolaidd. Bydd swyddogion o bob rhan o'r Adran Addysg yn chwilio am y posteri hyn yn ystod ymweliadau eraill er mwyn ychwanegu lefel arall o sicrwydd. |
| | | 6.2 | " | " | Ymgynghori â disgyblion am y posibilrwydd o gael unigolyn y tu allan i'r ysgol i adrodd pryderon wrthynt | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Medi 2025 – Ionawr 2026 | | Tasg | | | Na | Bydd Cydlynydd y Fforwm Pobl Ifanc wedi dylunio gweithdy i'w gyflwyno i bobl cyngor ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Disgwylir i gynnal y sesiynau hyn gydag ysgolion unigol ddarparu adborth manylach, cryfach a darlun cyffredinol cliriach ar draws y sir. Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar gwestiynau diogelu allweddol a llais y disgyblion, gan archwilio sut mae dysgwyr yn teimlo, pa mor dda y mae ysgolion yn gwrando ar bryderon, a pha welliannau y gellid eu gwneud. Trefnir cyfarfod pellach yn fuan i gwblhau cynnwys y gweithdy a'r ymagwedd i gasglu ymatebion, gyda'r cynnig cyfredol yn holiadur i grynhoi canfyddiadau o bob ymweliad. Y bwriad oedd dechrau ymweld ag ysgolion ddechrau'r hydref ond rydym wedi cael nifer o geisiadau i ymgynghori â disgyblion ar yr un mater, ac roedd hyn yn cynnwys y pwyllgor craffu ac Estyn. Credwn y gall rhai sesiynau ddigwydd cyn diwedd y tymor hwn gyda'r gweddill i ddilyn ym mis Ionawr. | Mae angen darparu'r sesiynau a chasglu'r canfyddiadau. |
| | | 6.3 | " | " | Adnabod yr opsiwn gorau wrth symud ymlaen ac unrhyw adnoddau y gellid bod eu hangen | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Chwefror 2026 | | Yn parhau | | | Mae'r adran wedi diogelu cyllid i barhau â rôl y Cydlynydd Fforwm Pobl Ifanc | Rydym wedi ymrwymo i barhau gyda rôl Cydlynydd y Fforwm Pobl Ifanc. | |
| 7 | CPR - 8 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn meddu ar y wybodaeth i ddeall ymddygiad oedolion sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol ac yn gwybod sut i roi gwybod am hyn yn ddiogel i oedolyn | Newidiadau cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn deall ymddygiadau oedolion sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol ac adrodd am hyn | Ie | Llywodraeth Cymru | Gwern ap Rhisiart | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | | Mae Cyngor Gwynedd yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn awyddus i gyflwyno unrhyw newidiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru wedi iddynt ystyried y mater yn llawn. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 7.1 | " | " | Gweithredu unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm a gynigir gan Lywodraeth Cymru wedi iddynt ystyried y mater yn llawn. | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern ap Rhisiart | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | Bydd angen i ni weld y newidiadau arfaethedig cyn penderfynu ar yr adnoddau posibl. | | |
| 8 | CPR - 9<br>RP - A4<br>RP - A1 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Dylai Awdurdodau Lleol ddangos tystiolaeth o sut maent yn cefnogi ac yn eirioli dros ddioddefwyr trawma, fesul achos, pan fo'u gallu i gael addysg wedi cael ei gyfyngu oherwydd eu profiadau. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad at addysg bellach ac uwch, a'r arian sydd ei angen i wneud hynny, pan nad yw'r gofynion o ran graddau a phresenoldeb wedi'u bodloni oherwydd y trawma a gawsant | Cefnogi dioddefwyr trawma a theilwra cefnogaeth i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. | Ie | Pob Awdurdod Lleol | Gwern ap Rhisiart | Yn parhau | | Yn parhau | | | Oes | Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda RASAC Gogledd Cymru i sicrhau bod cynlluniau cefnogaeth bersonol addas a phwrpasol yn eu lle ar gyfer dioddefwyr. Caiff hyn ei drafod yn rheolaidd yn y Panel Cefnogi Dioddefwyr a drwy drafodaethau uniongyrchol gydag unigolion sy'n derbyn y gwasanaethau. Mae cefnogaeth cwnsela a chefnogaeth emosiynol/llesiant hefyd ar gael ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr, disgyblion a staff.<br><br>Anfonwyd llythyr at yr holl ddioddefwyr yn y diwrnod cyn cyhoeddi'r CPR gan gydnabod y cyfnod anodd o'u blaenau a'u hatgoffa o'r gefnogaeth sydd ar gael drwy RASAC. Trafodaethau'n parhau rhwng y Gwasanaethau Plant a rhai o'r ISVAs a'r dioddefwyr ynghylch cefnogaeth bwrpasol. | Adnabod pecynnau posib o gefnogaeth i ddioddefwyr eraill a allai ddod ymlaen yn y dyfodol |
| | | 8.1 | " | " | Parhau i weithio'n agos gyda RASAC Gogledd Cymru i sicrhau bod cynlluniau cefnogaeth bersonol addas a phwrpasol yn eu lle ar gyfer dioddefwyr. Caiff hyn ei drafod yn rheolaidd yn y Panel Cefnogi Dioddefwyr a Mappa3. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | | DO | | |
| | | 8.2 | " | " | Cefnogaeth Ehangach - Cefnogaeth cwnsela a chefnogaeth emosiynol/llesiant ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr, disgyblion a staff | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter/Gwern Ap Rhisiart | Yn parhau | | Yn parhau | | | DO | | |
| | | 8.3 | " | " | Adnabod pecynnau posib o gefnogaeth i ddioddefwyr eraill a allai ddod ymlaen yn y dyfodol | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter/Gwern Ap Rhisiart | Yn parhau | | Yn parhau | | | DO | | |
| 9 | RP- A5 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | Ymdrin â cheisiadau am iawndal - Datrys achosion sy'n weddill yn amserol | Prosesu hawliadau am iawndal a datrys achosion sy'n parhau yn brydlon. | Ie | Cyngor Gwynedd | Nia Grisdale | Yn parhau | | Tasg | do | | | Mae unrhyw faterion a dderbynnir bellach yn nwylo cyfreithwyr arbenigol, a fydd yn gweithio tuag at ddatrysiad amserol, gyda chefnogaeth adran gyfreithiol y Cyngor. | |
| | | 9.1 | " | " | Mae unrhyw faterion a dderbynnir bellach yn nwylo cyfreithwyr arbenigol, a fydd yn gweithio tuag at ddatrysiad amserol, gyda chefnogaeth adran gyfreithiol y Cyngor. | | Cyngor Gwynedd | Nia Grisdale | Yn parhau | | Tasg | | | | | |
| 10 | NEW - 1 | | **Thema 1 - Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** | **Llais a Phrofiad Plant a Phobl Ifanc**<br><br>Yn ogystal â chynnwys yr adroddiad CPR, mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda:<br>- Cefnogi twf a hyder Fforwm Ieuenctid y Sir<br>- Cynghorau Ysgol<br>- Mentrau Sir Blentyn Gyfeillgar<br>- Hyrwyddo Hawliau Plant<br>- Rhaglenni hyfforddi Sir sy'n Ymwybodol o Drawma | Cydlynu ymagwedd strategol, ar draws y Cyngor i Lais a Phrofiadau Plant a Phobl Ifanc (Ymagwedd Hawliau'r Plentyn), gan wreiddio diwylliant cryf sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws yr holl wasanaethau. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Gwern ap Rhisiart | Yn parhau | | Tasg | | OES | Posibl - costau hyfforddi | Mae grŵp bychan o swyddogion a Chynghorwyr wedi cyfarfod i ddechrau archwilio'r gwaith hwn a chael dealltwriaeth gychwynnol o weithgarwch cyfredol ar draws y Cyngor yn ymwneud â llais y plentyn, cyfranogiad a hawliau.<br><br>Tra bod cryfderau clir o fewn y Fforwm Ieuenctid, cydnabyddir ei fod angen amser i ddatblygu a thyfu'n naturiol, gyda chefnogaeth briodol gan y Cyngor.<br><br>Mae cyswllt cychwynnol hefyd wedi'i wneud gyda UNICEF (Dinasoedd Blentyn Gyfeillgar) a Chomisiynydd Plant Cymru i gasglu gwybodaeth am y canllawiau a'r fframweithiau sydd ar gael.<br><br>Mae'r sgopio cynnar hwn yn rhoi man cychwyn i ddatblygu ymagwedd fwy cydlynus a chyson.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'i swyddogion lle amlygwyd gwahaniaethau mewn cyllido ar gyfer prosiectau Heneiddio'n Dda o gymharu â phrosiectau Plentyn Gyfeillgar gan Lywodraeth Cymru. | Y cam nesa yw creu cynllun gweithredu ymarferol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau ac amserlenni clir er mwyn gwreiddio diwylliant sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws yr holl wasanaethau. Bydd y Fforwm Ieuenctid yn chwarae rôl hanfodol wrth arwain y gwaith hwn a helpu i ffurfio'r egwyddorion sy'n sail i'n hymagwedd.<br><br>Bydd Cadeirydd y Bwrdd, Sally Holland, yn hwyluso gweithdy ar Hawliau'r Plentyn ar gyfer y Bwrdd ym mis Chwefror 2026. Hefyd, bydd ymgysylltu ehangach ar draws y Cyngor y hanfodol, er enghraifft, codi ymwybyddiaeth o'r Ymagawedd Hawliau'r Plentyn, gan ddarparu canllawiau ymarferol i staff, a sicrhau bod pob gwasanaeth yn deall ei rôl.<br><br>Bydd parhau i gydweithio ag UNICEF a'r Comisiynydd Plant yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn, gan helpu i sicrhau bod ymagwedd y Cyngor yn gydlynus, yn gyraeddadwy ac yn cyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol. |
| | | 10.1 | " | " | Creu darlun sylfaenol o'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar draws y Cyngor mewn perthynas â llais, cyfranogiad a hawliau'r plentyn. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Tachwedd 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 10.2 | " | " | Cysylltu ag UNICEF (Dinasoedd Blentyn Gyfeillgar) a'r Comisiynydd Plant Cymru i gasglu canllawiau a fframweithiau a all hysbysu ymagwedd y Cyngor. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Tachwedd 2026 | | Tasg | do | | | | |
| | | 10.3 | | | Datblygu cynllun gweithredu ymarferol gyda chyfrifoldebau ac amserlenni. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Ionawr 2026? | | Tasg | | | | | |
| | | 10.4 | " | " | Gweithdy Hawliau'r Plentyn wedi'i drefnu ar gyfer Aelodau'r Bwrdd (Chwefror 2026) | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Chwefror 2026 | | Tasg | | | | | |
| | | 10.5 | " | " | Cyflwyno Cynllun Gweithredu i'r Bwrdd am gymeradwyaeth | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Chwefror 2026 | | Tasg | | | | | |

## Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant

| Rhif | Cyfeirnod | Cyf Tasg | Thema | Argymhelliad / Amcan | Gweithred | A all CG weithredu: | Perthnasol i: | Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd | Amserlen | RAG | Tasg / Yn Parhau | Tasg wedi'i Chwblhau | Mesur | Adnoddau | Beth sydd eisoes wedi newid? | Beth sydd dal angen ei wneud? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | CPR -11 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Bod y gweithdrefnau diwygiedig yn nodi bod rhaid i lais y plentyn gael ei glywed, hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi gwneud unrhyw ddatgeliad | | Ddim yn uniongyrchol. | Llywodraeth Cymru | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | Mae'r Adran Plant bellach yn sicrhau bod pob un plentyn sydd ynghlwm ag atgyfeiriad (mewn rhai achosion lle mae'r plentyn wedi atgyfeirio plentyn arall ac nid yw'r datgeliad amdanyn nhw) yn cael gweithiwr cymdeithasol yn ymweld ac yn gwrando arnyn nhw. | Bydd y Cyngor yn datblygu mesurau penodol i'w cynnwys yn y ddogfen Bolisi "Llais y Plentyn", a bydd unrhyw fesurau a argymhellir gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cael eu hymgorffori hefyd. (Gweler argymhelliad CPR-1) |
| 12 | CPR - 14 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Mae Byrddau Diogelu yn cael ac yn craffu ar adroddiadau Awdurdodau Lleol am reoli honiadau o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod adrodd am yr honiadau yn dod yn rhan o ofynion rheoleiddio Estyn ac AGC. | | Ddim yn uniongyrchol. | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol / Rheoleiddwyr | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | | Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi nodi ei fwriad i gynnwys gwybodaeth perfformiad ynghylch cydymffurfiaeth â'r weithred hwn yn ei adroddiad blynyddol. Bydd y grŵp cyflawni rhanbarthol yn ymgymryd ag archwiliad blynyddol ar arferion adran 5. |
| 13 | RP- B5 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Mae'r corff rheoleiddio (ESTYN) yn cynnal arolygon mewn ysgolion unigol ac yn adrodd a yw'r trefniadau diogelu ar lefel leol (ysgol) yn bodloni'r gofynion | Gweithio gydag ESTYN i gefnogi ac ymateb i arolygon ar lefel ysgol, gan sicrhau bod trefniadau diogelu mewn ysgolion unigol yn bodloni gofynion rheoleiddiol. | Ie | Cyngor Gwynedd / Estyn | Gwern ap Rhisiart | Yn parhau | | Yn parhau | do | Oes | | Mae Estyn yn rhannu unrhyw bryderon diogelu o arolygon ysgolion gyda Gwynedd a chaiff y rhain eu trafod yn ystod eu cyfarfodydd tymhorol gyda'r Awdurdod. Mae trefniadau monitro a lliniaru risgiau yn eu lle. | Bydd angen i ni fonitro'r holl ysgolion drwy ein hymweliadau Sicrwydd Ansawdd a sicrhau bod unrhyw ysgol sydd â chanfyddiadau diogelu yn dilyn ymweliad Estyn yn derbyn cefnogaeth i fynd i'r afael â'r materion hynny. Ein nod yw ymweld â phob ysgol unwaith bob blwyddyn, a fydd yn caniatáu i ni sicrhau bod pob ysgol yn barod ar gyfer Estyn ond, yn bwysicach, yn ddiogel. |
| | | 13.1 | " | " | Mae Estyn yn gohebu â Gwynedd os oes pryderon diogelu wedi'u hamlygu mewn arolwg. Trafodir y rhain yn ymweliadau tymhorol Estyn gyda'r Awdurdod. | Ie | Estyn/Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart / Dyfrig Ellis | Yn parhau | | Yn parhau | do | Oes | Mae hyn yn ddibynnol ar y canfyddiadau. Byddwn yn cefnogi ysgolion wrth sicrhau ffiniau er enghraifft. | | |
| | | 13.2 | " | " | Sicrhau bod trefniadau monitro a lliniaru risgiau yn eu lle | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern Ap Rhisiart | Yn parhau | | Yn parhau | do | Oes | Na | | |
| 14 | CPR - 15<br>RP- C2<br>RP - C2a | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu 'Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn 'Low-level Concerns Policy' yn Lloegr), ac yn ystyried darparu canllawiau ar arferion gweithio diogel.<br><br>Adroddiad y Bargyfreithiwr - Argymhelliad 2: Sicrhau bod cofnodion yn ymwneud â materion diogelu yn cael eu storio mewn lleoliad canolog diogel, yn hytrach na chael eu cadw ar wahân yn ffeiliau aelodau staff unigol<br><br>Nododd Adroddiad y Bargyfreithiwr hefyd y dylai'r Cyngor weithredu canllawiau cliriach ar gyfer ymdrin â phryderon anffurfiol, sy'n faterion sy'n datgelu risg diogelu a godir y tu allan i gyd-destun y broses atgyfeirio ffurfiol. | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu 'Polisi Ymddygiad Oedolyn sy'n Peri Pryder' (a elwir yn 'Low-level Concerns Policy' yn Lloegr), ac yn ystyried darparu canllawiau ar arferion gweithio diogel | Ddim yn uniongyrchol. | Llywodraeth Cymru | Dylan Owen | Hydref 2025 - Ebrill 2026 | | Tasg | | | | Mae ymarferiad sgopio / papur ymchwil byr ar y polisi a ddefnyddir yn Lloegr wedi'i gwblhau. Ar 18.11.25, cyfarfu staff o Addysg, Diogelu (Plant ac Oedolion) ac Adnoddau Dynol i ystyried beth allai Gwynedd ei weithredu wrth aros am eglurhad gan Lywodraeth Cymru. Yn sgil pryderon ynghylch:<br><br>1. Gwerth cyfyngedig ymagwedd Gwynedd yn unig pan fod staff yn aml yn gweithio ledled rhanbarth y Gogledd a'r Canolbarth,<br>2. goblygiadau rheoli data, ac<br>3. AD a materion gwaith teg, gan gynnwys absenoldeb diffiniad statudol o "bryderon lefel-isel",<br><br>**Penderfynwyd oedi gweithredu Polisi Pryderon Lefel Isel hyd nes y bydd canllaw cenedlaethol wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.**<br><br>Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn edrych ar gynnal cofnod canolog o staff sydd wedi bod yn destun prosesau diogelu (Rhan 5), ymarfer a ddefnyddiwyd yn flaenorol ond sydd bellach angen meini prawf a diffiniad cliriach. Cynhaliwyd trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol cyfagos i ddeall eu hymarfer a ph'un a all Gwynedd fabwysiadu rhannau ohono. | Tra bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r argymhelliad, bydd y Cyngor yn adolygu'r rhestr ganolog cyn 2019 ac yn edrych ar sut y gallwn ailgyflwyno'r arfer o anfon gwybodaeth Rhan 5 i AD, gan sicrhau ei bod yn cael ei gwirio a'i hymgorffori i brosesau cyflogaeth. |
| | | 14.1 | " | " | Cylchredeg copi o'r polisi a ddefnyddir yn Lloegr gyda swyddogion perthnasol i'w ystyried ac adnabod a ellir gwneud unrhyw beth yn y cyfamser. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Hydref 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 14.2 | " | " | Cyfarfod â'r Adran AD i edrych ar beth ellir ei wneud yn gorfforaethol ac a yw'n bosib cadw rhestr ganolog o staff sy'n destun hawliad diogelu. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Hydref 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 14.3 | " | " | Cyfarfod â Swyddogion Diogelu (Plant ac Oedolion), y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol (AD) i benderfynu ar ffordd ymlaen. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Tachwedd 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 14.4 | " | " | Gweithio gyda'r Tîm Diogelu Data i ystyried unrhyw fesurau / canllawiau y mae angen eu rhoi yn eu lle ac am ba hyd y bydd hi'n bosib storio gwybodaeth ac ati. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Rhagfyr 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 14.5 | " | " | Ailgyflwyno'r rhestr yn gorfforaethol a sicrhau bod AD yn ei rheoli fel proses weithredol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Ian Jones | ? | | Tasg | | | | | |
| | | 14.6 | | | Edrych ar dechnoleg bellach (e.e. Y system AD newydd pan fydd yn ei lle) a all symleiddio'r broses gyhyd â phosib. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Ian Jones | ? | | Yn parhau | | | | | |
| | | 14.7 | " | " | Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru hefyd wedi nodi y bydd trafodaethau pellach yn digwydd ym Mwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru. | Ddim yn uniongyrchol. | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Dylan Owen | ? | | Yn parhau | | | | | |
| 15 | CPR - 12 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Mae'n ofynnol bod penderfyniadau am drothwy defnyddio'r gweithdrefnau yn cael eu gwneud mewn cyfarfod amlasiantaeth ac nid gan y LADO yn unig, a'u bod yn ystyried pryderon, cwynion a honiadau blaenorol | Sicrhau bod trafodaethau aml-asiantaethol yn digwydd i asesu trothwyon ar gyfer unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag unigolion mewn swyddi cyfrifol | Ie | Llywodraeth Cymru | Dylan Owen / Sharron Carter | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | Goblygiadau adnoddau posibl - mae bid corfforaethol dan ystyriaeth | Mae'r Adran Plant eisoes wedi gweithredu nifer o fesurau'n fewnol i sicrhau nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y LADO yn unig. Mae wedi cynyddu capasiti drwy ddefnydd ychwanegol o rolau DOS o fewn yr uned diogelu. Caiff atgyfeiriadau eu sgrinio gan yr IAA a bydd trafodaethau'n digwydd gyda naill ai'r LADO neu'r DOS ynghylch yr angen i weithredu gweithdrefnau Rhan 5.<br><br>Mae ein trafodaeth strategaeth a'n templedi cyfarfodydd eisoes wedi'u diwygio er mwyn sicrhau bod unrhyw a'r holl wybodaeth flaenorol wedi'i dal a'i rhannu. | Bydd yr Adran Plant hefyd yn ymgysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i ystyried ymarferoldeb gweithredu'r gofyn i gynnal cyfarfod amlasiantaethol wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â gweithredu gweithdrefnau rhan 5. Bydd hyn yn cynnwys ystyried trefniadau megis cyfarfodydd rheolaidd sydd wedi'u hamserlennu i sicrhau cyfathrebu a chydlynu effeithiol.<br><br>Bydd yr Adran hefyd yn asesu a fydd angen adnoddau neu staff ychwanegol i gefnogi'r newidiadau hyn a chynnal cydymffurfiaeth.<br><br>Rhagwelir sgwrs ar y mater hwn a'i hyfywedd ar draws y rhanbarth ym Mwrdd Diogelu Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr.<br><br>Cynllunnir cyfarfod pellach gyda'r Gwasanaethau Oedolion i ystyried goblygiadau ehangach trothwy o'r fath wrth wneud penderfyniadau. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 15.1 | " | " | Sicrhau trefniant cyson lle mae atgyfeiriadau'n cael eu derbyn gyntaf gan y Tîm Derbyn Cyfeiriadau, ac yna'u hasesu gan y LADO, fel nad yw penderfyniadau fyth yn cael eu gwneud gan un unigolyn. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Hydref 2025 | | Yn parhau | | | | | |
| | | 15.2 | " | " | Tra bod y Llywodraeth yn ystyried gweithredu'r argymhelliad hwn, bydd y Gwasanaethau Plant yn treialu proses ar gyfer atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag unigolion mewn swyddi cyfrifol. Bydd yr Adran Plant yn estyn allan i Wasanaeth Heddlu Gogledd Cymru i ystyried ymarferoldeb gwneud hyn. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Tachwedd 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 15.3 | " | " | Pennu unrhyw adnoddau sydd eu hangen i hwyluso gweithredu'r weithred hon yn llwyddiannus. Penaethiaid Adran a'r Cyfarwyddwr i drafod bid corfforaethol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Sharron Carter | Tachwedd 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 15.4 | " | " | Mae Grŵp Cyflawni Rhanbarthol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi nodi y bydd archwiliadau'n cael eu gwneud i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyn hwn ac y bydd hyfforddiant Adran 5 Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno i gefnogi LADOs. | Ie | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Dylan Owen | ? | | Yn parhau | | | | | |
| | | 15.5 | " | " | Adolygu'r weithdrefn yn sgil unrhyw argymhellion neu ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ar y mater yn y dyfodol | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | | | | |
| 16 | CPR - 5 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, rhaid ystyried yr holl wybodaeth ddiogelu ar gofnod y plentyn ar y system reoli data wrth asesu risg a pha mor ddiamddiffyn ydynt | Pan fo atgyfeiriad yn cael ei wneud dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru - Adran 5, sicrhau bod yr holl wybodaeth diogelu a gedwir ar gofnod y plentyn yn cael ei hadolygu wrth asesu risg a pha mor ddiamddiffyn ydynt | Ie | Pob sefydliad | Dylan Owen | Medi 2025 | | Tasg | do | | | Ymarfer bellach yn cynnwys ystyriaeth o atgyfeiriadau blaenorol. Cynhaliwyd archwiliad mewnol i adolygu atgyfeiriadau blaenorol i sicrhau bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi.<br><br>Mae'r ffurflenni trafodaeth Rhan 5 a chyfarfodydd strategol wedi'u diweddaru i gadarnhau bod cofnodion y plentyn wedi'u gwirio, eu hadolygu a'u hystyried, a bod hyn wedi'i gofnodi'n glir.<br><br>Maent hefyd yn ysgogiad i fynychwyr eraill, megis cynrychiolwyr Addysg neu AD, adolygu unrhyw wybodaeth a chofnodion cefndirol perthnasol. | Cadw unrhyw ddatblygiadau rhanbarthol a / neu genedlaethol mewn cof drwy Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru. |
| | | 16.1 | " | " | Addasu'r ffurflenni trafodaethau Rhan 5 a'r ffurflenni cyfarfod Strategaeth Rhan 5, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth wirio hon yn cael ei chofnodi o hyn allan.<br><br>Bydd y newid hwn hefyd yn atgoffa mynychwyr eraill mewn cyfarfodydd Rhan 5 - megis cynrychiolwyr o'r meysydd addysg neu adnoddau dynol - i wirio gwybodaeth a chofnodion cefndir perthnasol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Medi 2025 | | Tasg | do | | | | |
| 17 | NEW- 2 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Gormod o bwyslais ar y trothwy troseddol, angen mwy o ystyriaeth i "addasrwydd i weithio gyda phlant" | | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | Oes - cyflogi DOS a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran | | Bydd asesu trothwyon yn ffurfio rhan o'r gwaith archwilio y bydd yr Adran yn ei roi yn ei le. Y bwriad yw recriwtio unigolyn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Pennaeth Addysg), a fydd yn gweithredu fel y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (DOS) ac a fydd hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun archwilio ar draws yr Adran. |
| 18 | NEW- 3 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau bod ALlau eraill yn cael gwahoddiad i drafodaethau a chyfarfodydd strategaeth rhan 5 os ydynt yn ymwneud â phlentyn yn eu hardal | | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | Oes - cyflogi DOS a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran | | Bydd edrych ar bwy gaiff ei wahodd a phwy sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau Strategaeth yn ffurfio rhan o'r gwaith archwilio y bydd yr Adran yn ei roi yn ei le. Y bwriad yw recriwtio unigolyn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Pennaeth Addysg), a fydd yn gweithredu fel y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (DOS) ac a fydd hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun archwilio ar draws yr Adran. |
| 19 | NEW- 4 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau bod y ffurflen atgyfeirio yn hawdd mynd ati a ddim yn anodd i'w llenwi | Sicrhau bod y ffurflen atgyfeirio yn hawdd mynd ati ac yn hawdd i'w llenwi, gan gael gwared ag unrhyw rwystrau i fynediad. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Tasg | | Oes | Capasiti'r Adran TG i ymgymryd â'r gwaith | Yn y tymor byr, mae'r ffurflen wedi'i hychwanegu i'r wefan dan Cam-drin Plant, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Cadw Disgyblion yn Ddiogel. Mae e-bost hefyd wedi'i anfon at holl benaethiaid ysgolion Gwynedd yn atodi'r ffurflen fel modd o'u hatgoffa. | Gweithio gyda'r adran TG i ddatblygu fersiwn digidol o'r ffurflen fel nad oes angen i ddefnyddwyr lawrlwytho PDF a anfonir ar e-bost mwyach; bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i hanfon yn awtomatig drwy'r wefan.<br><br>Nodi bod y ffurflen yn ddogfen ranbarthol ac ar hyn o bryd mae cynlluniau i fabwysiadu un ffurflen atgyfeirio genedlaethol. |
| | | 19.1 | " | " | Sicrhau bod y ffurflen yn hawdd mynd ati dan Cam-drin Plant, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Cadw Disgyblion yn Ddiogel ar wefan y Cyngor. | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Tachwedd 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 19.2 | " | " | E-bostio holl Benaethiaid ysgolion Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth am y ffurflen ddiwygiedig | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Tachwedd 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 19.3 | " | " | Gweithio gyda'r adran TG i ddatblygu fersiwn digidol o'r ffurflen fel nad oes angen i ddefnyddwyr lawrlwytho PDF a anfonir ar e-bost mwyach; bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno a'i hanfon yn awtomatig drwy'r wefan | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | I'w gadarnhau | | Tasg | | | | | |
| 20 | NEW - 5 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau diwylliant tryloyw ac agored wrth ymdrin ag atgyfeiriadau - bod yn agor i wybodaeth dros y ffôn | | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | | Na | Mae'r Adran ar gael i ddarparu cyngor a derbyn atgyfeiriadau dros y ffôn. Mae hefyd gofynion proffesiynol a moesegol ar gyfer unigolion sy'n codi pryderon am blentyn i gofnodi gwybodaeth allweddol fel bod tystiolaeth ysgrifenedig glir ar gael, gan alluogi i'r Adran weithredu'n briodol ac yn gywir. | Mae rhan o'n gwaith parhaus yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ar draws y gweithlu ehangach i sicrhau bod pawb yn deall y gweithdrefnau cywir, er enghraifft drwy hyfforddi staff ar ba wybodaeth sydd angen ei chofnodi (gweler cyfeirnod: RP-C2). |
| 21 | NEW- 6 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Anhyblygedd a diffyg hyblygrwydd wrth drafod trothwyon | | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | | Gweler NEW- 2 | Gweler NEW- 2 |
| 22 | NEW- 7 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau bod cadeiryddion llywodraethwyr yn cael eu gwahodd i Gyfarfodydd Rhan 5 ffurfiol | | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen / Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | Oes - cyflogi DOS a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran | Ymarfer nawr yn cynnwys gwahodd cynrychiolydd y Llywodraethwyr a'r holl unigolion priodol eraill i'r cyfarfodydd. | Bydd edrych ar bwy gaiff ei wahodd a phwy sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau Strategaeth yn ffurfio rhan o'r gwaith archwilio y bydd yr Adran yn ei roi yn ei le. Y bwriad yw recriwtio unigolyn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Pennaeth Addysg), a fydd yn gweithredu fel y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (DOS) ac a fydd hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun archwilio ar draws yr Adran. |
| 23 | CPR - 10 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adolygu gweithdrefnau Adran 5 yn cael ei siapio gan y gwersi o'r Adolygiad hwn ac yn eu hystyried | | Na | Llywodraeth Cymru | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | | Mae Gwynedd yn gwbl ymroddedig i gymryd rhan lawn mewn treialu a gweithredu unrhyw newidiadau arfaethedig. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi nodi y bydd trafodaethau'n digwydd ym Mwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru ym mis Rhagfyr 2025. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | CPR 16 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Mae Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru (Strategaeth 10 mlynedd 2025-2035 ar gyfer atal cam-drin plant yn rhywiol (sy'n adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i CSA, Gorffennaf 2019) yn mynd drwy brawf straen yn erbyn canfyddiadau'r adolygiad hwn a bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth newydd | | Na | Llywodraeth Cymru | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | Mae'r Cyngor eisoes wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac wedi nodi ei bod yn hanfodol bod Strategaeth Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol 2025-2035 Llywodraeth Cymru yn cael ei phrofi'n drwyadl yn erbyn canfyddiadau'r CPR. Rhaid i'r strategaeth ystyried y gwersi lleol i'w dysgu er mwyn sicrhau gwelliannau ystyrlon mewn ymarfer. | Yn aros am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru. |
| 25 | RP- B2 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Ailstrwythuro a sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion Gwynedd | Mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu a yw'r strwythur yn addas i'r pwrpas. | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern ap Rhisiart | Yn parhau | | Cwblhawyd | do | | Mae'r ailstrwythuro wedi digwydd eisoes.<br><br>Swydd ychwanegol wedi'i hariannu gan LlC. | **11/03/2025** - Wedi adrodd yn y cyfarfod bod ailstrwythuro'r Gwasanaethau Addysg er mwyn sefydlu Gwasanaeth Diogelu a Llesiant Ysgolion Gwynedd wedi'i gwblhau. Mae hyn yn darparu capasiti i wirio ansawdd trefniadau ysgolion yn flynyddol ynghyd â gwydnwch yn nhermau staffio.<br><br>**20/11/25** - Mae'r gwasanaeth wedi hysbysebu am 4ydd aelod o'r tîm. Mae naw wedi ymgeisio, a bydd penodiada wedi'i wneud cyn diwedd y tymor hwn.<br><br>Mae'r gwasanaeth bellach yn dîm o 3, un rheolwr a dau swyddog, sy'n medru gweithio fel tîm er mwyn ymateb yn brydlon i geisiadau am gyngor a chefnogaeth. | Mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu ei strwythur i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas, gan adnabod unrhyw feysydd y gellid bod angen eu haddasu i fodloni gofynion y presennol a'r dyfodol. Byddwn yn ychwanegu 4ydd aelod i'r tîm cyn diwedd y tymor. |
| 26 | NEW- 8 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau perthynas waith well gydag Ysgolion fel nad oes canfyddiad bod atgyfeirio yn drafferthus/gwrthod atgyfeiriadau. | | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern ap Rhisiart / Dylan Owen | Yn parhau | | Yn parhau | | | Na | Mae rheolwyr tîm eisoes yn cyfarfod yn rheolaidd â phenaethiaid ac mae trefniadau wedi'u cynllunio yn eu lle ar gyfer yr ysgolion sy'n gofyn amdanyn nhw. Roedd yn arfer bod yn ymarfer safonol i Bennaeth a Dirprwy Bennaeth yr Adran Plant i fynychu fforymau penaethiaid ysgolion yn achlysurol - mae angen i'r ymarfer hwn barhau. | Cynnal yr ymarfer presennol o gyfarfodydd rheolaidd rhwng penaethiaid a rheolwyr tîm a chymryd rhan mewn fforymau penaethiaid. |
| 27 | NEW- 9 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau gwell cyfathrebu/cydlynu rhwng yr adrannau addysg a phlant | | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter / Gwern ap Rhisiart | Yn parhau | | Yn parhau | | | Na | Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant yn cyfarfod â thimau rheoli gweithredol ar hyn o bryd i sicrhau gwell dealltwriaeth o rolau. Yn ogystal, mae'r rôl Pennaeth Rhithiol ar gyfer Plant mewn Gofal yn sicrhau y cynhelir cyswllt parhaus â'r Gwasanaethau Plant ac mae'r Adran Addysg yn allweddol i weithredu'r Polisi "Dim Drws Anghywir" yn llwyddiannus. | Rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer Cyfarfodydd Rheolwyr rheolaidd ar y cyd i'w cynnal yn gyfnodol (e.e. yn chwarterol) er mwyn cryfhau cydweithio rhwng y ddwy Adran. |
| 28 | NEW- 10 | | **Thema 2 - Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant** | Sicrhau cofnodi Trafodaethau Strategaeth yn glir ac eglurder ynghylch y penderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd hyn | | Ie | Cyngor Gwynedd | Sharron Carter | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | Oes - cyflogi DOS a fydd hefyd yn arwain ar y Fframwaith Archwilio ar gyfer yr Adran | | Bydd edrych ar ansawdd cofnodi trafodaethau Strategaeth yn ffurfio rhan o'r gwaith archwilio y bydd yr Adran yn ei roi yn ei le. Y bwriad yw recriwtio unigolyn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Pennaeth Addysg), a fydd yn gweithredu fel y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (DOS) ac a fydd hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun archwilio ar draws yr Adran. |

## Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau

| Rhif | Cyfeirnod | Cyf Tasg | Thema | Argymhelliad / Amcan | Gweithred | A all CG weithredu: | Perthnasol i: | Cyfrifoldeb - Cyngor Gwynedd | Amserlen | RAG | Tasg / Yn Parhau | Tasg wedi'i Chwblhau | Mesur | Adnoddau | Beth sydd eisoes wedi newid? | Beth sydd dal angen ei wneud? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | CPR - 17 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adnodd hyfforddiant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad hwn, i'w ddefnyddio gan bob ysgol yng Nghymru. Dylai bod modd ei addasu er mwyn i asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant allu ei ddefnyddio | | Na | Llywodraeth Cymru | Gwern ap Rhisiart | I'w gadarnhau gan LlC | | Yn parhau | | | | | Mae'r Cyngor yn cefnogi'r argymhelliad hwn yn llawn ac mae'n awyddus i weithredu neu dreialu hyfforddiant o'r fath, unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y mater. |
| 30 | CPR - 18 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Bod pob aelod staff, gwirfoddolwr (gan gynnwys swyddogion gweinyddol a chyfleusterau) a Llywodraethwyr ysgol yn cael hyfforddiant am modus operandi troseddwyr rhyw a'u dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol gan ddefnyddio model Finklehor | Sicrhau bod pob aelod staff, gwirfoddolwr (gan gynnwys swyddogion gweinyddol a chyfleusterau) a Llywodraethwyr ysgol yn cael hyfforddiant am sut mae troseddwyr rhyw yn gweithredu a'u dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol, gan ddefnyddio model Finklehor. | Ie | Pob Ysgol | Gwern ap Rhisiart | i'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | Bydd angen datblygu'r hyfforddiant hwn. Nid oes darpariaeth hyfforddiant gydnabyddedig ar gyfer hyn, mae'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn hyfforddi cyfredol ar gyfer ysgolion wedi'i ddarparu gan yr NSPCC ac nid yw'n ddigonol i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad. | |
| | | 30.1 | " | | | | | | | | | | | | | |
| 31 | CPR - 19 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Bod sicrwydd yn cael ei roi i Fyrddau Diogelu bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i swyddogion Gwasanaethau Addysg, Plant ac Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol, sy'n arwain ar reoli pryderon neu'n ymateb i bryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant | Bod y Bwrdd Diogelu yn cael sicrwydd bod pob aelod staff, gwirfoddolwr (gan gynnwys swyddogion gweinyddol a chyfleusterau), staff AD a Llywodraethwyr ysgol yn cael hyfforddiant am sut mae troseddwyr rhyw yn gweithredu a'u dulliau o feithrin perthnasoedd amhriodol. | Ie | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Gwern ap Rhisiart / Dylan Owen / Ian Jones | i'w gadarnhau (gweler CPR-18) | | Yn parhau | | OES | Oes? | (gweler CPR-18) | (gweler CPR-18) |
| | | 31.1 | " | | | | | | | | | | | | | |
| 32 | CPR - 20 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Bod y Bwrdd Diogelu yn cael sicrwydd bod gan Awdurdodau Lleol bolisïau Canu'r Gloch clir, y tynnir sylw atynt, a bod pob aelod staff yn gallu eu defnyddio'n ddiogel | Mae Polisi Canu'r Gloch Cyngor Gwynedd wedi cael sylw aa gellir ei ddefnyddio'n ddiogel gan yr holl staff. | Ie | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Ian Jones | Ebrill 2026 | | Yn parhau | | Oes | ? | Mae'r Polisi Canu'r Gloch eisoes yn ei le ac mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag Archwiliad Mewnol ar yr ymwybyddiaeth ohono ym mis Mehefin 2024. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen ym mis Gorffennaf 2025 ac mae rhaglen waith yn ei lle i adolygu'r Polisi 'Canu'r Gloch' Corfforaethol a'r Polisi Enghreifftiol i Ysgolion Mae hyn yn cynnwys gwahodd arbenigwyr allanol (PROTECT) i roi barn a sicrhau bod y polisi yn addas i'r pwrpas ac ymgymryd â phroses ymgynghori gydag Undebau.<br>Mae polisi diwygiedig wedi'i ddrafftio a'i gylchredeg i'w adolygu gyda'r nod o'i gyflwyno i'r Cabinet am gymeradwyaeth ym mis Chwefror 2026.<br>Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi gwneud cymhariaeth gyda pholisi Llywodraeth Cymru yn nhermau ysgolion ac ar hyn o bryd nid yw'n ystyried ei bod hi'n angenrheidiol cyflwyno polisi newydd i ysgolion Gwynedd. Yn hytrach, argymhellir bod pob ysgol yn symud i fabwysiadu polisi'r Llywodraeth cyn gynted â phosib. | - Derbyn cymeradwyaeth a mabwysiadu'r Polisi newydd<br>- Comisiynu system cofnodi a monitro newydd er mwyn gweithredu'r Polisi<br>- Rhaglen i godi ymwybyddiaeth ac ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer Penaethiaid Adrannau, Penaethiaid Cynorthwyol, Rheolwyr, Arweinyddion Tîm a staff N45 |
| | | 32.1 | " | | Archwiliad mewnol o ymwybyddiaeth staff o'r Polisi Canu'r Gloch | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Mehefin 2025 | | Tasg | do | | | Cwblhawyd | |
| | | 32.2 | " | | Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Gorffennaf 2025 | | Tasg | do | | | Cwblhawyd | |
| | | 32.3 | " | | Grŵp Tasg a Gorffen i adolygu'r Polisi 'Canu'r Gloch' Corfforaethol a'r Polisi Enghreifftiol i Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys gwahodd arbenigwyr allanol (PROTECT) i roi barn a sicrhau bod y polisi yn addas i'r pwrpas ac ymgymryd â phroses ymgynghori gydag Undebau. | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Diwedd Tachwedd 2025 | | Tasg | do | | | Drafft wedi'i gwblhau a'i ddosbarthu i'w adolygu | |
| | | 32.4 | " | | Cyflwyno i'r Cabinet i dderbyn cymeradwyaeth o'r Polisi newydd | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Ionawr 2026 | | Tasg | | | | | |
| | | 32.5 | " | | Cyflwyno i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu'r Polisi diwygiedig. | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | 5 Mawrth 2025 | | Tasg | na | | | | |
| | | 32.6 | " | | Comisiynu system cofnodi a monitro newydd er mwyn gweithredu'r Polisi | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Diwedd Ionawr 2026 | | Tasg | na | | | Yn mynd rhagddo | |
| | | 32.7 | " | | Rhaglen i godi ymwybyddiaeth ac ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer Penaethiaid Adrannau, Penaethiaid Cynorthwyol, Rheolwyr, Arweinyddion Tîm a staff | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Ionawr - Ebrill 2026 | | Tasg / Yn Parhau | na | Oes | Oes | | |
| | | 32.8 | " | | Adolygu effeithiolrwydd y polisi bob 3 blynedd | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Rhagfyr 2028 | | Yn parhau | na | | | | |
| | | 32.9 | " | | Pob ysgol yn symud i fabwysiadu polisi'r Llywodraeth cyn gynted â phosib. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant. | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern ap Rhisiart | | | | | Oes | | | |
| 33 | CPR -13 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Bod Byrddau Diogelu yn cael sicrwydd bod swyddogion LADO eu hardaloedd yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth yn rheolaidd | | Na | Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | | | | Aros am gadarnhad am yr hyn sydd ei angen. Bydd is-grŵp Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant Diogelu Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn gofyn am ddiweddariadau mewn perthynas â chydymffurfiaeth ar y weithred hon. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | CPR - 24 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | **Bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn adolygiad o drefniadau llywodraethu mewn ysgolion ledled Cymru, sy'n:**<br><br>Sicrhau bod yr Unigolion Diogelu Dynodedig a'u dirprwyon yn destun goruchwyliaeth allanol gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys o'r awdurdod lleol perthnasol | Sicrhau bod yr Unigolion Diogelu Dynodedig a'u dirprwyon yn derbyn goruchwyliaeth allanol gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys. | ? | Llywodraeth Cymru | Gwern ap Rhisiart / Dylan Owen | I'w gadarnhau | | Yn parhau | | OES | Gyda bron i gant o Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion (heb gynnwys dirprwy UDDau), bydd angen sicrhau adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol. | Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant o fewn yr Adran Addysg yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r Unigolion Diogelu Dynodedig mewn ysgolion ledled Gwynedd.<br><br>Mae'r trefniant hwn yn unigryw i'r sir ac mae Rheolwr y Tîm mewn cyswllt parhaus gyda thîm amddiffyn plant Gwynedd.<br><br>Os yw'r Unigolion Diogelu Dynodedig yn mynegi dymuniad am oruchwyliaeth mwy arbenigol, gellid trefnu hyn fel sydd angen. | Gyda bron i gant o unigolion dynodedig mewn ysgolion, bydd angen sicrhau adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol.<br><br>Rhagwelir y caiff yr argymhelliad hwn ei drafod ym Mwrdd Diogelu Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr ac o bosib ei gyfeirio i fyny i'r bwrdd diogelu cenedlaethol. |
| 35 | RP- C2 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Adroddiad y Bargyfreithiwr - Argymhelliad C1:<br>Cyflwyno **hyfforddiant ychwanegol i staff** ynghylch gweithdrefnau cadw cofnodion a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i safon digonol | Ychwanegu hyfforddiant cadw cofnodion diogelu ychwanegol i'r e-fodiwl presennol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones/Dylan Owen | Rhagfyr 2025 | | Tasg | | | ? | Mae asesiad o opsiynau ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau. Cyfyngiad allweddol yw na allwn addasu'r model craidd ein hunain, gan ei fod yn fodiwl hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru cenedlaethol safonol. Credwyd yn wreiddiol y gallem ychwanegu gwybodaeth i'r "dudalen lanio", ond wedi'i adolygu ac ystyried y byddai'r cynnwys hwn yn ymddangos cyn hyd yn oed y cynnwys hyfforddiant mwyaf sylfaenol, penderfynwyd nad oedd hyn yn briodol. Rydym bellach wedi cysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru i ofyn a allwn gynnwys sleid ychwanegol i hyfforddiant Gwynedd.<br><br>Mae drafft o'r geiriad / gwybodaeth hyfforddiant yn ei le, ond yn dilyn adborth mae angen ei adolygu bellach. | Mireinio a chwblhau geiriad yr hyfforddiant.<br><br>Yn aros am ymateb gan Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu sut ellir addasu'r hyfforddiant a gyflwynir yng Ngwynedd. |
| | | 35.1 | " | | Asesu'r opsiynau posib ar gyfer diweddaru neu adolygu'r e-fodiwl. | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | Medi 2025 | | | do | | | | |
| | | 35.2 | " | | Cysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru - yn aros am gadarnhad o'u hymateb. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Tachwedd 2025 | | | do | | | | |
| | | 35.3 | " | | Geiriad drafft wedi'i rannu gyda staff diogelu a hyfforddiant am adborth. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Tachwedd 2026 | | | do | | | | |
| | | 35.4 | " | | Mireinio a chwblhau'r geiriad. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Rhagfyr 2025 | | | | | | | |
| | | 35.5 | " | | Cynnwys hyfforddiant cadw cofnodion diogelu yn yr e-fodiwl presennol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | i'w gadarnhau | | | | | | | |
| 36 | RP- B1b | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn craffu lefelau'r hyfforddiant diogelu a VAWDASV ym mhob Adran ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu Corfforaethol yn chwarterol; | Grŵp Gweithredol Diogelu yn craffu lefelau'r hyfforddiant diogelu a VAWDASV ym mhob Adran ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu Corfforaethol yn chwarterol; | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones/Dylan Owen | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | Ariannwyd y rôl Hyrwyddwr Diogelu drwy fid corfforaethol. | Mae sgôp sylweddol i gynyddu nifer y staff Cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a VAWDASV. Sefydlwyd y rôl Hyrwyddwr Diogelu ym mis Medi 2025, gyda'r unigolyn a benodwyd yn dechrau yn y swydd yn gynnar ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Hyrwyddwr Diogelu hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Panel Diogelu a'r Grŵp Gweithredol.<br><br>Mae ystadegau hyfforddiant diogelu wedi'u cynnwys yn adroddiadau Herio Perfformiad pob adran o fis Medi 2025 ymlaen. Mae'r Prif Weithredwr wedi gofyn i bob Pennaeth Adran flaenoriaethu hyrwyddo'r hyfforddiant diogelu, ac mae trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau y gall staff sydd heb fynediad i gyfrifiaduron gwaith fynychu sesiynau hyfforddi wyneb-yn-wyneb. | Creu Is-grŵp dan y Grŵp Gweithredol Diogelu i ddatblygu a goruchwylio cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor. Bydd yr Is-grŵp hefyd yn cynhyrchu teclynnau ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor. |
| | | 36.1 | " | | Anfon negeseuon atgoffa i bob Pennaeth Adran i sicrhau bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones/Dylan Owen | Awst 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 36.2 | " | | Sicrhau bod dangosfwrdd perfformiad pob adran yn adrodd ar ganran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu a VAWDASV. | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones/Dylan Owen | Hydref 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 36.3 | " | | Penodi rôl Hyrwyddwr Diogelu i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones/Dylan Owen | Hydref 2025 | | Tasg | do | | | | |
| | | 36.4 | " | | Creu Is-grŵp dan y Grŵp Gweithredol Diogelu i ddatblygu a goruchwylio cynllun cyfathrebu clir ar gyfer holl staff y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn bodloni anghenion timau rheng flaen. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Tachwedd 2025 | | Tasg | | | | | |
| | | 36.5 | " | | Datblygu a chynhyrchu teclynnau ymarferol i atgyfnerthu a hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor (drwy'r Is-grŵp). | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones/Dylan Owen | i'w gadarnhau | | Tasg | | | Yn dibynnu ar argymhellion yr is-grŵp | | |
| | | 36.6 | " | | Monitro'n rheolaidd canran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu a VAWDASV gorfodol. | Ie | Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | Yn parhau | | Yn parhau | | Oes | | **Rhagfyr 2025 -**<br>Nifer yr unigolion sydd wedi cwblhau Diogelu **- 75.9% (Medi - 73.5%) /**<br>Nifer yr unigolion sydd wedi cwblhau Cam-drin Domestig **- 72.8% (Medi - 71.1%)** | |
| 37 | RP- B2 | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Cefnogaeth a chyngor i ysgolion ar drefniadau diogelu gan gynnwys polisi, hyfforddiant a threfniadau monitro diogelu | Adolygiad parhaus o becyn hyfforddiant diogelu ysgolion | Ie | Cyngor Gwynedd | Gwern ap Rhisiart | Cwblhawyd | | Yn parhau | do | | Mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau y gall y tîm ymweld â'r holl ysgolion. Mae hyn wedi'i ddarparu drwy grant LlC. | **11/03/25:** Pecyn Hyfforddiant Ysgolion wedi'i ddiweddaru. Mae hyn yn rhywbeth a arferai ddigwydd ond mae rhan benodol o'r pecyn sydd wedi'i chyflwyno eleni wedi bod ar "feithrin perthnasoedd amhriodol" ar gais ysgolion (gweler CPR-3)<br><br>Mae'r grŵp o Unigolion Dynodedig ar lefel Awdurdodau Gogledd Cymru wedi'i sefydlu. Mae pecynnau hyfforddiant ar yr agenda. Mae'r cwricwlwm i ysgolion wedi'i safoni ac yn unol â disgwyliadau cenedlaethol. | Mae trefniadau hunan-arfarnu a monitro yn eu lle. Cynhelir ymweliadau blynyddol gan y tîm Diogelu a Llesiant. Rydym yn dymuno gwella'r broses hunan-arfarnu a gwblheir gan ysgolion. Bydd hyn yn rhoi gwell syniad i ni o'r materion y mae angen i ni roi sylw iddynt a'n helpu ni i fesur effaith.<br><br>Rydym yn bwriadu cryfhau'r ffordd y mae ysgolion yn arfarnu diogelu a defnyddio'r wybodaeth hon i roi gwell syniad i ni o effaith ein gwaith i'w cefnogi nhw. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 38 | RP- C2d | | **Thema 3 - Hyfforddiant a Pholisïau** | Adroddiad y Bargyfreithiwr - Argymhelliad D: Sicrhau bod yr holl staff a allai fod ynghlwm â gwneud penderfyniadau diogelu wedi cwblhau **lefel gofynnol gorfodol o hyfforddiant diogelu** | | Ie | Cyngor Gwynedd | Ian Jones | | | | | | | **75.9%** o holl staff y Cyngor bellach wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu.<br>Mae unigolyn bellach wedi'i benodi i'r swydd Hyrwyddwr Diogelu<br>Mae'r Polisi Recriwtio a Dethol wedi'i addasu i adlewyrchu Hyfforddiant Gorfodol wrth gychwyn cyflogaeth | Mae gwaith i'w wneud ar gyfrifon e-bost i staff (yn benodol staff rheng flaen) i alluogi iddyn nhw gwblhau hyfforddiant gorfodol. Cyflwyno bid am gyllid sylweddol er mwyn gwella hynny yn ystod cylch bidio'r Cyngor ar gyfer 2026/27 ac ymhellach. |
